Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
63/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
04/12/2018

Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Beth sy'n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig?

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78964-481-4

Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Beth sy'n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig?

Awdur(on): Dr Cerys Miles, Llywodraeth Cymru (wedi'i secondio o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru) a Dr Karen De Claire, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Miles C & De Claire K (2018). *Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Beth sy'n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig?*
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 63/2018
Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/rapid-evidence-assessment-what-works-with-domestic-abuse-perpetrators/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr Cerys Miles
Cymunedau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru

Crynodeb Gweithredol

Cyflawnwyd yr Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (ACD) yn y ddogfen hon yng nghyd-destun gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ogystal â deddfwriaeth a pholisi perthnasol arall o eiddo Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU. Yn benodol, mae'n helpu i gyflawni Amcan 3 yn Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru: 'Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr'. Mae'r ACD yn amlinellu'r canfyddiadau o adolygiadau a gyhoeddwyd hyd yn hyn mewn perthynas â 'beth sy'n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig' er mwyn atal troseddu o'r fath neu leihau'r risg o droseddu a/neu niwed pellach. Mae'n tynnu sylw at yr ystyriaethau hanfodol sy'n codi mewn perthynas â llawer o'r ymchwil berthnasol, yn cynnwys rhagfarn ymysg ymchwilwyr, cyfyngiadau ar fethodoleg/dyluniad a'r heriau o werthuso gwasanaethau i gyflawnwyr cam-drin domestig mewn ffordd ddilys a dibynadwy.

Wedyn mae'r ACD yn cynnig cyfosodiad cyfredol o'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar lefel genedlaethol a rhyngwladol am effeithiolrwydd gwasanaethau i gyflawnwyr cam-drin domestig, yn cwmpasu'r rheini sy'n ymwneud ag addysg, triniaeth/ymyrraeth (wedi'u seilio ar nifer o wahanol fodelau newid), goruchwyliaeth, a/neu reolaeth. Mae'n cynnig beirniadaeth o'r ymchwil gysylltiedig ac yn ystyried sut mae hyn yn effeithio ar y casgliadau y gellir dod iddynt am effeithiolrwydd y gwasanaethau i gyflawnwyr sydd dan sylw. Nid yw'r ACD yn rhoi cefnogaeth glir i effeithiolrwydd unrhyw ffordd benodol o ddarparu gwasanaethau i gyflawnwyr cam-drin domestig yn fwy na'i gilydd, ond mae'n nodi'r ymyriadau hynny sy'n fwy addawol. Mae'n dangos ymhellach nad oes tystiolaeth glir o blaid nifer o'r dulliau presennol yn y llenyddiaeth a adolygwyd gan gymheiriaid. Mae'r ACD yn ystyried goblygiadau'r canfyddiadau hyn i gomisiynwyr, academwyr, ymarferwyr a llunwyr polisi sy'n gysylltiedig â gwasanaethau i gyflawnwyr cam-drin domestig. Mae'n tynnu sylw at y pwysigrwydd o barhau i werthuso'r gwasanaethau presennol i gyflawnwyr cam-drin domestig yn drwyadl ac annibynnol, a hefyd at yr angen i roi prawf ar ddulliau mwy arloesol (e.e. arferion seiliedig ar drawma) o weithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig ar hyd 'taith y troseddwr'.

Tabl cynnwys

Crynodeb Gweithredol 1
Rhestr tablau 3
Rhestr termau 4
1. Cyflwyniad/Cefndir 7
2. Methodoleg 19
3. Canfyddiadau 21
4. Casgliadau 33
5. Argymhellion 35
Adran cyfeiriadau 38
Atodiad A: Protocol Chwilio 46
Atodiad B: Papurau sydd wedi'u Cynnwys 48

Rhestr tablau

Tabl 1: Canlyniad chwilio a gwerthuso……..21

Rhestr termau

Acronym/Allweddair	Diffiniad
Anhwylder Personoliaeth (PD)	Anhwylder meddyliol y gellir ei ddiagnosio sydd wedi'i nodweddu gan batrymau camaddasol treiddiol o ymddygiad, credoau a phrofiad mewnol a welir ar draws cyd-destunau ac sy'n gwyro o normau diwylliannol. Mae patrymau cysylltiedig yn datblygu'n gynnar, maent yn anhyblyg, ac yn gysylltiedig â gofid neu anabledd sylweddol.
Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (ACD)	Dull o gynnal chwiliad ac asesiad ansawdd strwythuredig a thrwyadl o dystiolaeth.
Atgwympo	Y duedd i aildroseddu. Mae'r term yn cael ei ddefnyddio'n aml yn gyfystyr ag 'aildroseddu' ac 'ailgollfarnu' yn y llenyddiaeth gysylltiedig.
Cyfiawnder Adferol	Dull o ymateb i drosedd ar sail yr egwyddorion o unioni niwed a gwneud iawn, drwy ddod â'r partïon yr effeithiwyd arnynt at ei gilydd i gytuno ar ddull o ailintegreiddio â'r gymuned.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Deddfwriaeth sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru.
Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015	Deddfwriaeth sy'n ceisio gwella'r ymateb i gam-drin a thrais o'r fath gan y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.
Hap-dreial wedi'i Reoli (RCT)	Dull arbrofol gwyddonol safonol sy'n lleihau tuedd wrth roi prawf ar ymyriad. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn y treial yn cael eu dyrannu ar hap i grŵp yr ymyriad neu i

	grŵp rheoli sy'n derbyn 'triniaeth fel arfer' (neu'n derbyn plasebo).
Model Duluth	Dull o weithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig a oedd yn deillio o UDA yn y 1980au, sydd wedi'i seilio ar ddamcaniaeth ffeministaidd a'r rhagosodiad bod dynion yn cam-drin partneriaid benywaidd fel mynegiant o bŵer a rheolaeth.
PICO (Population, Intervention, Comparison, Outcome)	Cofair sy'n helpu i lunio cwestiynau ymchwil ac i lunio termau ar gyfer chwiliad llenyddiaeth.
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)	Digwyddiadau bywyd trawmatig neu lawn straen yn ystod plentyndod sy'n gallu cael effaith negyddol ar weithrediadau oedolion.
Rhaglenni i Gyflawnwyr Cam-drin Domestig (DVPPs)	Ymyriadau ar gyfer pobl sydd wedi defnyddio trais a cham-drin yng nghyd-destun perthynas bersonol a/neu yn erbyn cyn-bartner. Mae'r rhain yn cael eu darparu fel arfer mewn grŵp, ond gallant ddigwydd ar sail unigol hefyd.
Seico-addysg	Dull addysgol o helpu a grymuso unigolion sydd ag anhwylder iechyd meddwl i ymdopi'n fwy effeithiol.
System Leoli Fyd-eang (GPS)	System lywio seiliedig ar loeren sy'n rhoi'r gallu i ganfod lleoliad targed (e.e. rhywun yn gwisgo dyfais drosglwyddo).
Trais Partner Personol (IPV)	Trais wedi'i gyflawni gan briod/partner presennol/ blaenorol mewn perthynas bersonol yn erbyn y partner arall. Gall y term hwn gynnwys nifer o wahanol ymddygiadau camdriniol ac mae'n gyfystyr â 'cham-drin domestig' a 'thrais domestig' yn y llenyddiaeth gysylltiedig.
Therapi Derbyn ac	Ymyriad seicolegol sy'n cynnwys derbyn (e.e. teimladau

Ymrwymo (ACT)	negyddol) a strategaethau ymwybyddiaeth ofalgar i hwyluso newid mewn ymddygiad.
Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT)	Ymyriad seicogymdeithasol sy'n targedu'r ymagweddau, credoau a meddyliau anfuddiol sy'n sail i ymdopi gwael ac ymddygiad problemus er mwyn hwyluso newid.
Therapi Seicodynamig	Dull therapiwtig sy'n canolbwyntio ar ddadlennu a datrys gwrthdrawiadau anymwybodol y dywedir eu bod yn ysgogi'r symptomau sylfaenol.
Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT)	Ymyriad seicotherapiwtig i ddelio â phatrymau ymddygiad anfuddiol a darparu'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo drwy well rheoleiddio.
Ymwybyddiaeth Ofalgar	Techneg ar gyfer canoli sylw ar y presennol (yn cynnwys sylwi ar feddyliau, teimladau a synwyriadau eraill) heb farnu.

1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Mae cam-drin domestig yn broblem sylweddol i'r rheini y mae'n effeithio arnynt ac yn her i'r asiantaethau cyhoeddus sy'n ymateb iddo. Ceir ôl-effeithiau pellgyrhaeddol o gam-drin domestig sy'n effeithio ar iechyd a llesiant dioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd. Mae plant sy'n dystion i drais domestig yn gallu profi effeithiau hirdymor sy'n para wedi iddynt ddod yn oedolion (Women's Aid, 2018).

1.2 Mae'r ffigurau swyddogol diweddaraf (a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2017a) am y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2017 yn dangos graddau'r cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr:

- Amcangyfrifwyd bod 1.9 miliwn o oedolion rhwng 16 a 59 mlwydd oed wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn ddiwethaf (1.2 miliwn o fenywod, 713,000 o ddynion).
- Roedd mwyafrif y rheini a laddwyd mewn dynladdiadau domestig a gofnodwyd rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2016 yn fenywod (70%).
- Trafodwyd cyfanswm o 83,136 o achosion risg uchel mewn cynadleddau amlasiantaeth asesu risg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2017, yn cyfateb i 36 o achosion am bob 10,000 o oedolion benywaidd.
- Ymysg oedolion sydd ag angen cymorth i'w diogelu, mae cyfran sylweddol ag angen y cymorth hwnnw am eu bod yn profi cam-drin domestig.

1.3 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2017 roedd 66,704 o ddigwyddiadau a throseddau cysylltiedig â cham-drin domestig gyda'i gilydd yng Nghymru, a throseddau treisgar cysylltiedig â cham-drin domestig oedd 34% o'r holl droseddau cysylltiedig â thrais (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2017b). Yn yr un flwyddyn yng Nghymru, roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cofnodi 6,366 o erlyniadau cysylltiedig â cham-drin domestig a 4,832 o collfarnau cysylltiedig â cham-drin domestig. Gan fod nifer yr achosion sy'n cael eu cofnodi a'u darganfod yn llai na'r nifer gwirioneddol (ac oherwydd cyfyngiadau eraill mewn data cysylltiedig), mae'n debygol nad yw'r ffigurau hyn ond yn dangos rhan o'r broblem cam-drin domestig yng Nghymru.

1.4 Mae'r awydd i atal cam-drin domestig a darparu cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr wedi sbarduno nifer o newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth yng Nghymru. Yn 2012, cychwynnwyd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Y nod wrth gyflwyno Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2014 oedd gwella'r trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn ogystal â darparu gwell cymorth i bobl sy'n profi effaith cam-drin a thrais o'r fath.

1.5 Y Bil oedd y man cychwyn ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth – Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â cham-drin domestig a thrais rhywiol a gyflawnir yn erbyn yr holl bobl yng Nghymru, beth bynnag fo'u rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae hefyd yn ymdrin â thrais a gyflawnir yn erbyn menyw neu ddyn sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella'r ymateb gan y sector cyhoeddus cyfan, sicrhau arweiniad cryfach a sylw mwy cyson i'r ffordd rydym yn delio â'r materion hyn yng Nghymru, yn helpu dioddefwyr/goroeswyr ac yn gweithio i atal troseddau o'r fath. Mae Amcan 3 o strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n codi o hyn yn ceisio sicrhau 'mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr'.

1.6 Mae pwnc cam-drin domestig yn rhan hefyd o ysbryd deddfwriaeth sy'n ceisio datblygu dull mwy cydgysylltiedig i greu'r Gymru rydym i gyd am fyw ynddi yn awr ac yn y dyfodol. Yn 2015, cyflwynwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Ei nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi mwy o ystyriaeth i'r tymor hir a gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a chyrff eraill. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy drwy ddilyn yr egwyddorion o gwrdd ag anghenion y presennol, heb amharu ar genedlaethau'r dyfodol; atal; integreiddio; cydweithio a chymryd rhan. Mae hyn yn gyson â chenhadaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau 'Ffyniant i Bawb', gan adlewyrchu'r nod hirdymor o adeiladu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac

egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, yn unedig ac yn gysylltiedig. Law yn llaw â hyn, mae Rhaglen Llywodraeth Cymru, *Symud Cymru Ymlaen,* yn amlinellu'r prif ymrwymiadau sydd i'w cyflawni hyd 2021 (Llywodraeth Cymru, 2016).

1.7 Mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy gydweithio â Phrifysgol Liverpool John Moore (Bellis et al., 2015), ymchwiliwyd i nifer yr achosion o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'r canlyniadau negyddol i'r rhain. Daeth i'r casgliad bod nifer sylweddol o boblogaeth Cymru yn dioddef cam-drin, esgeuluso a mathau eraill o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, fel bod yn dyst i gam-drin domestig a chamddefnyddio alcohol a sylweddau yn ystod eu plentyndod. Roedd yr ymchwil wedi ystyried proffilau penodol ac wedi nodi bod 47% yn profi o leiaf un categori o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a bod 14% yn profi pedwar neu ragor sy'n gysylltiedig â datblygu mathau o ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd. Roedd peidio â bod yn agored i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn lleihau'r tebygolrwydd o gyflawni trais, ac roedd 2.9% o'r rheini na fu'n agored iddynt wedi rhoi gwybod am gyflawni trais, o'i gymharu â 33% o'r rheini a oedd yn agored i bedwar neu ragor o gategorïau o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae'r canfyddiad bod 41% o boblogaeth carchardai wedi profi neu fod yn dyst i gam-drin domestig yn dangos y mathau ehangach o niwed cymdeithasol sy'n dilyn y troseddau hyn (strategaeth Ending Violence against Women and Girls 2016 – 2020). Mae'n glir bod goblygiadau i bolisi ac ymarfer yn yr effaith hirsefydlog o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar boblogaeth cyflawnwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

1.8 Yn 2014, cynhaliwyd adolygiad annibynnol o Wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru (Berry, Stanley, Radford, McCarry a Larkins, 2014), a oedd wedi nodi bylchau mewn gwasanaethau i gyflawnwyr cam-drin domestig yn y gymuned. Cyfeiriwyd yn argymhelliad yr adolygiad at y dystiolaeth sy'n datblygu ar gyfer rhaglenni i gyflawnwyr cam-drin domestig a'r angen i roi prawf ar nifer o wahanol ddulliau (wedi'u seilio ar wahanol fodelau) yng nghyd-destun Cymru. Tynnwyd sylw at y pwysigrwydd o werthuso ymyriadau o'r fath yn drwyadl.

Ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig – dulliau a thystiolaeth o effeithiolrwydd

1.9 Wrth ystyried nodweddion Rhaglenni i Gyflawnwyr Trais Domestig yn Ewrop, roedd Hamilton, Koehler a Lösel (2012) wedi nodi bod ymyriadau o'r fath yn defnyddio tri dull cyffredinol: Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT), dull pro-ffeministaidd a dull seicodynamig, gydag ymyriadau a oedd yn cynnwys un neu ragor o'r dulliau hyn. Roedd ymchwilwyr wedi myfyrio ar y ffaith nad oes tystiolaeth gadarn i ddangos effeithiolrwydd rhaglenni sy'n ceisio delio â Thrais Partner Personol, pa ddull bynnag a ddefnyddir.

1.10 Wrth edrych ar y rhesymau posibl am hyn, roedd Dutton (2012) o'r farn bod dull seiliedig ar rywedd (yn seiliedig, er enghraifft, ar fodel 'pŵer a rheolaeth' Duluth), sy'n gwahaniaethu'n glir rhwng y cyflawnydd a'r dioddefwr (sydd fel arfer yn cael eu gweld yn wryw ac yn fenyw yn y drefn honno) wedi arwain at gyfyngu ar y ffocws mewn ymatebion triniaeth. Roedd yn dadlau o blaid rhoi mwy o ystyriaeth i gyfran uchel y trais cilyddol mewn Trais Partner Personol yn gyffredinol, gan awgrymu y dylai ymyriadau geisio rhoi sylw i gymhlethdod o'r fath yn hytrach na dilyn llwybr stereoteipaidd dwyrannol. Aeth Dutton ymlaen i ddadlau o blaid effeithiolrwydd dichonol ymyriadau ataliol (yn hytrach nag adweithiol), gan fod modd rhag-weld Trais Partner Personol diweddarach ymysg y glasoed, gan dynnu sylw at natur trais sy'n pontio'r cenedlaethau a'r effeithiau grymus o ddysgu cymdeithasol. Cyfeiriodd at dystiolaeth gadarnhaol am effeithiolrwydd rhaglenni atal sy'n canolbwyntio ar y teulu, gan nodi bod eu heffaith yn fwy na hynny o ddulliau ôl-weithredol.

1.11 Mae hyn yn gyson â'r awgrym gan Stover, Meadows a Kaufman (2009) y dylid ystyried yr hanesion o drawma, nodweddion Anhwylder Personoliaeth a hanes o gamddefnyddio sylweddau sy'n gyffredin ymysg cyflawnwyr Trais Partner Personol wrth ddylunio a darparu ymyriadau effeithiol, er mai prin oedd y sylw a oedd yn cael ei roi iddynt mewn rhaglenni i gyflawnwyr trais ar y pryd. Roeddent hefyd yn awgrymu, o gofio'r cyd-destun i Drais Partner Personol, y dylai ymyriadau gynnwys y cyflawnydd a'i bartner yn ogystal â'u plentyn/plant. Ar adeg eu hymchwil, dulliau seiliedig ar fodel Duluth oedd y mathau o ymyriadau a welid amlaf ar gyfer cyflawnwyr trais, ond prin oedd y dystiolaeth o'u heffeithiolrwydd.

1.12 Aeth Langhinrichsen-Rohling a Capaldi (2012) ymlaen i awgrymu bod dulliau seiliedig ar rywedd o ymdrin â Thrais Partner Personol yn tueddu i ragdybio bod ymddygiad o'r fath o natur gyfryngol ac nad yw rheolaeth wael ar gynyrfiadau a rheoleiddio gwael ar emosiynau yn chwarae rhan, er gwaethaf tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Roedd yr awduron wedi tynnu sylw ymhellach at yr angen am ymyriadau i ymdrin â mathau o ymddygiad camdriniol nad ydynt yn gorfforol. Ategwyd y ddadl hon ymhellach gan Babcock et al. (2016) gan ganolbwyntio ar ymyriadau yn UDA, drwy gyfeirio at lenyddiaeth empeiraidd a oedd yn dangos nad er mwyn arfer eu braint wrywaidd yn unig y mae'r rhan fwyaf o gyflawnwyr yn defnyddio trais a rheolaeth ormesol. Awgrymodd yr awduron fod y defnydd o fodelau seiliedig ar rywedd yn unig yn gallu esgeuluso'r rhan sy'n cael ei chwarae'n aml gan hunanreoleiddio gwael mewn troseddu o'r math hwn a chynnig bod gwerth o bosibl mewn dulliau Therapi Gwybyddol Ymddygiadol, Therapi Ymddygiadol Dialectig a Therapi Derbyn ac Ymrwymo, drwy integreiddio technegau ymwybyddiaeth ofalgar ar gyfer cyflawnwyr trais o'r fath.

1.13 Mae'n bwysig cydnabod nad oes consensws am yr angen i droi oddi wrth ddealltwriaeth seiliedig ar rywedd o drais partner personol a thrais rhywiol. Rhybuddiodd Hamby (2014) rhag dibynnu'n llwyr ar fesurau hunangofnodi hen ffasiwn fel ffynhonnell data ac awgrymodd fod anghymesuredd o ran rhywedd yn cael ei ddangos yn glir wrth ystyried tystiolaeth arall, gan fod gwrywod yn cyflawni mwy o bron pob math o drais corfforol a rhywiol na benywod. Roedd yr awdur yn dadlau o blaid gwella dulliau o gasglu a chofnodi data, a gwneud mwy o ddefnydd o dechnolegau modern i fesur trais o'r fath yn gywir, a hynny i gyfrannu yn ei dro at lunio dulliau o atal ac ymyrryd.

1.14 Yn eu hadroddiad ar 'Project Mirabal', roedd Kelly a Westmarland (2015) yn ceisio ymchwilio i effeithiolrwydd rhaglenni i gyflawnwyr trais domestig (gwrywaidd) yn y DU a achredwyd gan Respect o ran newid ymddygiad unigolion a chyfrannu at Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig, yn ogystal ag ystyried sut y gellir parhau i ddal yn atebol y rheini nad yw gwasanaethau o'r fath ar gael iddynt. Roeddent yn ymdrin â ffyrdd i ddatblygu ymchwil i effeithiolrwydd rhaglenni i gyflawnwyr trais domestig, gan droi'r sylw oddi wrth ragor o sancsiynau cyfiawnder troseddol a hunangofnodi newid at ddulliau mwy arbrofol, drwy ddefnyddio grwpiau rheoli/cymharu.

1.15 Roedd Velonis et al. (2016) wedi cwestiynu'r rhagdybiaeth bod modd gwerthuso rhaglenni i gyflawnwyr trais domestig ar wahân i'w cyd-destun yn y gymuned ehangach. Yn ôl yr awduron, roedd eu canfyddiadau'n dangos tystiolaeth o blaid dealltwriaeth seiliedig ar rywedd o drais domestig, ac roeddent yn awgrymu bod beirniadaeth o'r dull hwn yn y llenyddiaeth 'tend to draw on simplistic notions of gender' (t34). Aethant ymlaen i ddweud bod y cyflawnwyr hynny a elwodd o'r cyfleoedd ar raglenni i gyflawnwyr trais domestig i graffu ar syniadau goblygedig am fraint wrywaidd a'r ymdeimlad o hawl sy'n rhan annatod ohoni yn fwy tebygol o brofi newid cadarnhaol, ond nid oeddent wedi nodi'r data a ddefnyddiwyd i ddod i'r casgliad hwn. Yr hyn sydd o ddiddordeb neilltuol i'r papur hwn yw'r newid yn yr astudiaeth at ystyried mesurau llwyddiant amgen mewn nifer o ddimensiynau, a'u canfyddiad bod rhan bwysig i'w chwarae gan raglenni i gyflawnwyr trais domestig wrth leihau trais domestig, er nad ydynt yn cynnig ateb i bob dim.

1.16 Mae'n werth nodi bod papur Kelly a Westmarland (a oedd yn dangos tystiolaeth o blaid rhaglenni a achredwyd gan Respect) yn datgan eu bod yn ffeministiaid ac mae eraill wedi awgrymu (e.e. Bates et al., 2017) ei bod yn bosibl bod ymchwilwyr sydd â chredoau ideolegol penodol yn tueddu i siarad yn fwy ffafriol am effeithiolrwydd rhaglenni i gyflawnwyr trais domestig. Gan gyfeirio'n benodol at astudiaeth Kelly a Westmarland (2015), roedd Bates, et al. wedi tynnu sylw ymhellach at y ffaith nad oedd yn cynnwys dadansoddiad ystadegol o niwed. Roeddent hefyd yn nodi bod y sampl wedi haneru bron rhwng y camau cyn ac ar ôl y rhaglen ac nad oedd y dadansoddiad yn rhoi ystyriaeth ddigonol i nodweddion y rheini a oedd wedi methu â chwblhau triniaeth. Daeth Bates, et al. i'r casgliad, oherwydd y cyfyngiadau hyn ac eraill, na ellid ystyried bod yr astudiaeth yn rhoi tystiolaeth o blaid rhaglenni a achredwyd gan Respect. Mae'n werth nodi ymhellach fod gofynion achredu Respect wedi'u hadolygu ers hynny yng ngolwg ymchwil ddiweddar a datblygiadau mewn ymarfer (Respect, 2017) a gellid barnu ei bod yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau am effeithiolrwydd gwasanaethau i gyflawnwyr cam-drin sy'n cydymffurfio â'r Safon newydd.

1.17 Yn eu harolwg o raglenni i gyflawnwyr cam-drin domestig ledled UDA a Chanada, roedd Cannon, Hamel a Buttell (2016) wedi tynnu sylw at yr amrywiadau yn y ffyrdd o ymdrin â chynnwys, gan fod rhai ohonynt yn glynu wrth dargedau triniaeth wedi'u

seilio ar dystiolaeth empeiraidd yn fwy na'i gilydd. Yn debyg i Dutton (2012), roeddent wedi nodi bod gormod o sylw yn cael ei roi i gredoau am rolau rhywedd a bod rhagdybiaeth mai dynion yw'r cyflawnwyr trais mewn perthnasoedd, er gwaethaf ymchwil sy'n dangos i'r gwrthwyneb. Roedd Cannon, et al. yn awgrymu y dylid seilio rhaglenni ar dystiolaeth empeiraidd nid yn unig o ran y ffactorau dynamig y maent yn ceisio rhoi sylw iddynt, ond hefyd yn y dull o'u darparu. Roeddent yn awgrymu, er enghraifft, er bod darparwyr yn tueddu i ffafrio dull seiliedig ar grŵp, fod tystiolaeth yn dod i'r golwg o blaid gweithio gyda chyplau yng nghyd-destun therapi. Roeddent wedi nodi'r newid cyffredinol oddi wrth ddulliau sydd wedi'u seilio'n llwyr ar fodel ffeministaidd/Duluth, a bod parodrwydd cynyddol i fod yn fwy ymatebol. Er mai 'pŵer a rheolaeth' oedd y targed triniaeth mwyaf cyffredin o hyd yn y rhaglenni a adolygwyd, roedd y mwyafrif hefyd yn rhoi sylw i ddatrys anghydfodau, meddyliau sy'n ffafrio trais a gwybyddiaeth afresymegol. Roedd yr awduron wedi nodi ymhellach fod lleiafrif o'r ymyriadau a ddarparwyd yn delio â cham-drin o'r ddau gyfeiriad a bod angen i'r ganran hon gynyddu er mwyn delio â'r trais sefyllfaol a gafwyd yn rhan fwyaf o'r achosion o drais partner personol.

1.18 Roedd Ellsberg, et al. (2014) wedi nodi bod diffyg tystiolaeth o hyd, er gwaethaf yr ymchwil helaeth a gafwyd, o effaith ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr trais ar draws nifer o fodelau damcaniaethol gwahanol. Roedd yr awduron wedi nodi'r cyfyngiadau ar fethodoleg nifer o'r astudiaethau a oedd yn ymdrin â rhaglenni gwaith grŵp ar gyfer cyflawnwyr trais sy'n oedolion gwrywaidd. Er hynny, roeddent wedi nodi tystiolaeth gadarnhaol am effeithiolrwydd ymyriadau mewn ysgolion o ran lleihau achosion o drais 'ar ddêt'.

1.19 Roedd Velonis, Cheff, Finn, Davloor ac O'Campo (2016) yn awgrymu mai'r pwyslais ar leihau aildroseddu (wedi'i fesur fel arfer ar sail cyfraddau swyddogol am ailgollfarnu) fel dangosydd effeithiolrwydd sy'n sail i'r diffyg tystiolaeth glir am effeithiolrwydd rhaglenni i gyflawnwyr trais. Roeddent yn cynnig y byddai gofyn cwestiynau mwy manwl fel 'beth sy'n gweithio?' (a 'beth nad yw'n gweithio?), 'i bwy?' ac 'o dan ba amgylchiadau?' yn gallu bod yn fwy buddiol i gyfrannu at lunio polisi ac ymarfer. Yn ôl yr awduron, ni ddylai rhaglenni gael eu hystyried ar wahân, ond yn y cyd-destun amgylcheddol, cymunedol/cymdeithasol a barnwrol ehangach. Mae'n bosibl bod dull unffurf o ddarparu ymyriadau wedi rhoi canlyniadau

amhendant. Mae hyn yn cynnig dadl o blaid gwahaniaethu (drwy asesu, triniaeth a goruchwyliaeth) rhwng, er enghraifft, y cyflawnwyr hynny sy'n defnyddio mathau gormesol/gorfodol o drais a'r rheini sy'n ymwneud â thrais partner sefyllfaol. Yn yr hyn y maent yn ei alw'n 'realist review', maent yn credu y byddai cynyddu ein dealltwriaeth o'r mecanwaith newid a chanolbwyntio ar ganlyniadau procsimol yn gallu bod yn fwy llesol yn y tymor hwy wrth ddatblygu ymatebion effeithiol ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig.

1.20 Roedd Eckhardt, Murphy, Whitakerm Sprunger, Dykstra a Woodard (2013) wedi ystyried effeithiolrwydd ymyriadau yn UDA ar gyfer cyflawnwyr (a dioddefwyr) trais partner personol, gan nodi'r canlyniadau amhendant o adolygiadau cynharach o'r fath. Mae'n ddiddorol nodi eu hawgrym bod nifer o raglenni i gyflawnwyr trais domestig, er eu bod yn eu galw eu hunain yn rhai seiliedig ar Therapi Gwybyddol Ymddygiadol, yn cynnwys ymyriadau sy'n mabwysiadu dulliau mwy traddodiadol tebyg i fodel Duluth, ac eraill sydd wedi'u seilio ar ddulliau mwy therapiwtig. Wrth dynnu sylw eto at ansawdd yr ymchwil yn y maes hwn, sy'n wael gan mwyaf mewn llawer achos ac yn dueddol o'i hanfod, nid oedd Eckhardt, et al. wedi canfod tystiolaeth a oedd yn dangos bod un math o ymyrraeth yn fwy effeithiol na'i gilydd ar gyfer trin cyflawnwyr trais, ac roeddent yn dadlau felly na ddylid pennu un model newid penodol mewn safonau ar gyfer rhaglenni. Er hynny, roeddent yn tynnu sylw at dystiolaeth sy'n dangos ei bod yn bwysig cynnwys elfennau ysgogiadol wrth weithio gyda chyflawnwyr trais.

1.21 Mewn adolygiad systematig o raglenni i gyflawnwyr trais domestig yn Ewrop gan Akoensi, Koehler, Lösel a Humphreys (2013), er bod nifer helaeth o astudiaethau cyhoeddedig perthnasol (mwy na 10,446) wedi'u nodi, dim ond mewn 12 o'r rhain y credwyd bod effeithiolrwydd rhaglenni wedi'i werthuso'n systematig. Unwaith eto, nodwyd bod cyfyngiadau ar fethodoleg yn broblem, fel na ellid dod i gasgliadau penodol. Mewn trafodaeth am yr un astudiaethau, roedd Lösel, Koehler, Hamilton, Humphreys ac Akoensi (2011) yn codi cwestiynau ynghylch y dylanwad o effeithiau dewis ac ymataliad naturiol ar ganfyddiadau sy'n ymddangos eu bod yn cynnig tystiolaeth o effeithiolrwydd, gan ddadlau o blaid cynnwys grwpiau cymharu mewn gwerthusiadau o'r fath yn ogystal â gwerthusiadau dilynol tymor hwy a defnyddio mesurau canlyniadau lluosog. Mewn astudiaeth bellach o werthusiadau a

gwblhawyd o raglenni i gyflawnwyr trais yn Ewrop, ceisiodd Lilley-Walker, Hester a Turner (2016) gyfrannu at lunio dull safonol ar gyfer y dyfodol i werthuso ymyriadau o'r fath, gan bwysleisio'r angen i fesur canlyniadau cyflawnwyr trais drwy gydol eu hymwneud â gwasanaethau, drwy ddefnyddio nifer o ddulliau ansoddol a meintiol. Roeddent yn nodi bod y ffordd y mae cyfraddau gadael cyn gorffen yn cael eu cofnodi, eu hadrodd a'u dilyn yn gyfyngedig iawn, a bod tuedd i drafod rhai sy'n gadael cyn gorffen fel un grŵp unffurf. Roeddent yn dadlau na fydd gennym ddarlun clir o ba agweddau, meddyliau ac ymddygiadau sy'n newid (neu beidio), ac ym mha ffordd, yn ystod ymyriad nes bydd data o'r fath yn cael eu casglu mewn ffordd gyson a dibynadwy.

1.22 Yn y trydydd mewn cyfres o adolygiadau a gynhaliwyd yn rhan o'r rhaglen What Works a gomisiynwyd i ategu'r fenter What Works in Crime Reduction yn y Coleg Plismona, roedd Vigurs, Schucan-Bird, Quy a Gough (2015) wedi cynnal adolygiad o adolygiadau systematig o raglenni i gyflawnwyr trais domestig ar lefel ryngwladol, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer dioddefwyr a chyfiawnder troseddol. Roeddent wedi ymchwilio ymhellach i'r damcaniaethau newid sy'n sail i raglenni effeithiol i gyflawnwyr trais domestig ac wedi edrych ar y cymedrolyddion sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd er mwyn ystyried pam y gall ymyriadau fod yn fwy effeithiol na'i gilydd ar gyfer rhai cyflawnwyr trais. Roedd yr ymyriadau a adolygwyd wedi'u seilio'n fras ar ddulliau pro-ffeministaidd/Duluth, therapi gwybyddol ymddygiadol neu therapi seicodynamig, ac ni chafwyd bod unrhyw ddull yn fwy effeithiol na'i gilydd o ran lleihau aildroseddu. Fel y nodwyd gan nifer o awduron, roedd Vigurs et al. (2015) wedi canfod nifer mawr o ddiffygion o ran dylunio a methodoleg a oedd yn cyfyngu ar y gallu i ddod i gasgliadau. Mae'n bwysig nodi, er hynny, fod yr ymyriadau hynny ag elfen ysgogiadol yn gysylltiedig â chyfraddau cwblhau uwch a llai o aildroseddu nag eraill.

1.23 Mae hyn yn eithaf cyson â chanfyddiadau Scott, King, McGinn a Hosseini (2011) a oedd wedi ystyried effeithiolrwydd ymyriad ysgogiadol ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig a oedd yn gwrthsefyll triniaeth am ymddygiad troseddol. Cawsant fod rhaglen o'r fath yn gysylltiedig â chyfraddau cwblhau uwch mewn ymyriad dilynol ar gyfer curwyr, ond nad oedd yn gysylltiedig â gwahaniaethau yn y sgorau gan hwyluswyr am gyrraedd targedau triniaeth (o'u cymharu â'r rheini na chawsant

fewnbwn ysgogiadol ychwanegol). Yn olaf, roedd Vigurs, et al. yn galw am ofal wrth gymhwyso'r canfyddiadau at gyd-destun y DU gan fod y rhan fwyaf o'r astudiaethau a adolygwyd wedi'u seilio ar boblogaethau yn UDA.

1.24 Cwblhawyd astudiaeth a oedd yn ymwneud yn bennaf ag adolygu rhaglenni i gyflawnwyr trais domestig yn y DU gan Bates, Graham-Kevan, Bolam a Thornton (2017). Eu prif nod oedd adnabod nodweddion ymyriadau o'r fath. Gan ddefnyddio methodoleg holiadur, roeddent wedi tynnu sylw at y dylanwad parhaus o ymagwedd ffeministaidd at raglenni i gyflawnwyr trais domestig yn y DU, gan nodi enghreifftiau o wasanaethau sy'n cydnabod yr angen i fod yn ymatebol i gyflawnwyr unigol, fel nad ydynt yn rhagdybio bod yr un ateb yn addas i bawb. Roedd Bates, et al. wedi edrych ar hanes datblygiad dulliau seiliedig ar fodel Duluth, sydd (yn eu barn nhw) yn methu â rhoi sylw i anghenion triniaeth unigol na'r ffactorau datblygiadol sydd â chydberthynas â chyflawni trais partner personol. Roeddent yn priodoli'r ffocws cyfyng hwn i'r canfyddiad cyson bod rhaglenni triniaeth seiliedig ar fodel Duluth yn aneffeithiol at ei gilydd, gan ddadlau y dylid seilio ymyriadau ar dystiolaeth gadarn ddiduedd yn hytrach nag ideoleg. Roeddent yn dadlau ymhellach fod polisi cysylltiedig yn cael ei orfodi o hyd gan 'activists' yn hytrach nag arbenigwyr gwrthrychol.

1.25 Awgrymodd Bates, et al. y dylai rhaglenni i gyflawnwyr trais domestig gael eu seilio ar y llenyddiaeth ehangach ar ymosodedd, a bod angen edrych ar effeithiolrwydd targedau triniaeth sy'n ymwneud (er enghraifft) ag ymlyniad camweithredol. Ychwanegwyd y dylai triniaeth yr unigolyn gael ei seilio ar asesiad gweithredol yn hytrach na defnydd cyffredinol o 'gendered analysis and feminist models' (t27).

1.26 Wrth ystyried y dystiolaeth, mae'n glir bod diffyg o ran gwerthuso trwyadl o ymyriadau sy'n targedu Trais Partner Personol. Mae hyn yn effeithio ar ein dealltwriaeth gyffredinol o'r hyn sy'n effeithiol wrth ymdrin ag ymddygiad o'r fath. Er bod Kelly a Westmarland wedi cwestiynu'r sail foesegol i ddull o astudio rhaglenni i gyflawnwyr trais drwy hap-dreialon, roedd Feder, Niolon, Campbell, Wallinder, Nelson a Larrouy (2011) yn dadlau o blaid hyn. Cyfeiriasant at argymhellion ar gyfer cynnal astudiaethau Hap-dreial wedi'i Reoli (sy'n cael eu hystyried yn ddull safonol mewn ymchwil empeiraidd) o ymyriadau trais yn erbyn menywod a wnaed yn y

1990au, ond sydd heb eu defnyddio ond yn anaml yn y maes. Roeddent wedi defnyddio dull o'r fath i roi prawf ar raglen seiliedig ar atal.

1.27 Dadleuodd Feder, et al. fod modd cynnal Hap-dreialon wedi'u Rheoli mewn ffordd ddiogel a moesegol (yn debyg i'r maes meddygol) i roi prawf ar effeithiolrwydd rhaglenni ac, mewn sefyllfaoedd lle na fyddant yn ymarferol neu'n briodol o bosibl, y dylid cadw at ddull arbrofol cadarn o werthuso. Er enghraifft, mae Treasury (2011) wedi disgrifio enghraifft o addasu hap-dreial wedi'i reoli i fesur effeithiolrwydd rhaglen ymddygiad troseddol mewn carchardai. Drwy ddefnyddio sampl 'rhestr aros' fel grŵp rheoli, roedd y gwerthuswyr yn gallu eu cymharu â grŵp a oedd wedi derbyn triniaeth, ac roedd yr holl gyfranogwyr wedi derbyn yr ymyriad yn y pen draw. Felly roedd hyn yn ymateb i'r pryderon bod hap-dreialon wedi'u rheoli yn atal grwpiau rheoli rhag elwa o driniaeth. Parhawyd i ddadlau o blaid defnyddio hap-dreialon wedi'u rheoli fel y dull mwyaf effeithiol o asesu a yw polisi'n effeithiol a dadleuwyd eu bod yn symlach ac yn llai drud nag a ragdybir weithiau (Haynes, Service, Goldacre a Torgerson, 2012).

1.28 Astudiaeth sydd o ddiddordeb yw un sy'n edrych ar yr hyn *nad* yw'n gweithio yng nghyd-destun systemau ymyrryd ar gyfer trais domestig. Drwy ddefnyddio grwpiau ffocws (yn cynnwys staff perthnasol, cyflawnwyr a dioddefwyr/goroeswyr trais), cafodd Wallpe (2010) fod ffactorau sy'n cyfyngu effeithiolrwydd o'r fath yn cynnwys: ymdrechion i 'simultaneously punish and rehabilitate perpetrators', defnyddio dull sy'n cynnig yr un ateb i bawb, methiant gan y system (a rhannau ohoni) i fod yn atebol am reoli cyflawnwyr trais, beio dioddefwyr, cydweithio annigonol ac ymarfer anghyson, a methu â defnyddio digon o ddulliau atal ac ymyrryd cynnar. Mae'n bwysig bod y newid i weld troseddu o'r fath yn fater iechyd y cyhoedd yn rhoi hwb i ddatblygu astudiaethau mwy trwyadl i'n helpu i ddeall 'beth sy'n gweithio'. Yn debyg i'r gymeradwyaeth gan Feder et al. (2011) i ddulliau cydweithredol o werthuso, drwy ddod ag academwyr ac ymarferwyr at ei gilydd, roedd Murray, et al. (2015) yn dadlau ymhellach o blaid integreiddio ymchwil ac ymarfer, gan nodi bylchau sy'n bod ar hyn o bryd rhwng y ddau faes arbenigedd hyn. Yn ogystal â'r gwerth mewn cydweithio, roedd yr awduron hyn yn nodi'r angen i ymchwil ofyn ac ateb cwestiynau sy'n berthnasol i ymarfer a'r angen i ganfyddiadau ymchwil gael eu

dosbarthu’n effeithiol i ymarferwyr mewn modd sy’n cael dylanwad cadarnhaol ar eu gwaith.

2. Methodoleg

2.1 Mae'r adolygiad hwn wedi ystyried nifer o feysydd lle gall ymyriadau fod o gymorth i leihau'r risg sy'n cael ei hachosi gan unigolion sy'n cyflawni trais domestig. Defnyddiwyd dull yr Asesiad Cyflym o Dystiolaeth i sicrhau bod y dystiolaeth sydd ar gael yn cael ei chasglu a'i hystyried o fewn cyfnod rhesymol. Er mwyn rhoi sylw cynhwysfawr i'r opsiynau ymyrryd sydd ar gael, roedd dewis eang o dermau chwilio wedi'i gynnwys yn y protocol chwilio (gweler Atodiad A). Mireiniwyd y termau chwilio hyn drwy gydol y broses a'u defnyddio i chwilio cronfeydd data Scopus, OVID a Medline. Croesgyfeiriwyd y chwiliadau hyn â chwiliadau cyffredinol o'r rhyngrwyd, chwiliadau Google Scholar, chwiliadau o awduron penodol a chwilio gwefannau llywodraeth.

2.2 Roedd y dull cynhwysol hwn wedi cynyddu nifer y papurau yr oedd angen eu hadolygu ac felly wedi ymestyn yr amser a gymerwyd i gwblhau'r dasg. Mae rhai cyfyngiadau yn cyfyngu ar yr hyder yn y canfyddiadau i ryw raddau. Nid oedd papurau heb eu cyhoeddi a rhai mewn ieithoedd heblaw Saesneg wedi'u cynnwys, felly mae'n bosibl y bydd tuedd yng nghyswllt cyhoeddiadau yn effeithio ar y canfyddiadau. Wrth chwilio, canolbwyntiwyd ar y cyfnod ar ôl 2012 gan fod adolygiadau blaenorol wedi ystyried y papurau ymchwil a oedd ar gael cyn y dyddiad hwn. Mae'n bosibl y bydd hyn wedi creu tuedd yn y canfyddiadau at dueddiadau ymchwil diweddar.

2.3 Cafodd astudiaethau eu sgrinio a'u hystyried dim ond os oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cwestiwn am effaith: beth sy'n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig i atal neu leihau'r risg o droseddu drwy gam-drin domestig? Cawsant eu hepgor ar y cam hwn os oeddent yn canolbwyntio ar ddioddefwyr/goroeswyr yn hytrach na chyflawnwyr. Y meini prawf (wedi'u seilio ar y dull PICO sy'n ystyried poblogaeth, ymyriad, cymharu a chanlyniad) ar gyfer eu cynnwys yn y diwedd oedd:

- Poblogaeth: cyflawnwyr cam-drin/trais domestig gwrywaidd a benywaidd dichonol neu wirioneddol sy'n oedolion a/neu'n blant (wedi'u collfarnu neu heb eu collfarnu);

- Ymyriad: gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar gyflawnwyr trais yn cynnwys addysg, triniaeth/ymyrryd, goruchwyliaeth, a/neu reolaeth;
- Cymharu: rhwng ymchwil i’r pwnc sy’n cymharu cyflawnwyr trais a gafodd driniaeth â chyflawnwyr sydd heb gael triniaeth neu unigolion rheoli sydd wedi cael triniaeth wahanol a hefyd mewn ymchwil i’r pwnc sy’n cymharu cyflawnwyr ar fesurau a gymerwyd cyn ac ar ôl yr ymyriad;
- Canlyniad: atal neu leihau troseddu/aildroseddu ar ffurf cam-drin/trais domestig.

3. Canfyddiadau

3.1 Gyda'i gilydd, roedd y chwilio a gwerthuso wedi arwain at gynnwys 155 o bapurau a allai fod yn berthnasol. Wrth adolygu papurau, daeth yn glir bod yr ymyriadau'n perthyn yn naturiol i gategorïau penodol. O'r 155 o bapurau, roedd 42 yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys. Mae crynodeb o'r canlyniadau i'r broses o chwilio a gwerthuso'r papurau a gafwyd o ganlyniad er mwyn penderfynu ar eu cynnwys/hepgor yn Nhabl 1.

Tabl 1: Canlyniad chwilio a gwerthuso

Dull	Cyfanswm y papurau	Papurau wedi'u cynnwys
Ymyriadau therapi penodol	64	18
Ymyriadau teuluol	14	3
Ymyriadau yn y gymuned a chan rai presennol	47	11
Cymunedau penodol	14	3
Rheolaeth allanol	16	8

Mae'r papurau sydd wedi'u cynnwys wedi cael eu rhestru yn Atodiad B.

Ymyriadau Therapi Penodol

Therapi Gwybyddol Ymddygiadol

3.2 Roedd Bloomfield a Dixon (2015) wedi dadansoddi'r data yn yr holl raglenni gwybyddol-ymddygiadol ar drais domestig a oedd wedi'u darparu gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac wedi edrych ar gyfraddau ailgollfarnu dros ddwy flynedd ar gyfer mwy na 4000 o gyfranogwyr yn y grŵp a oedd wedi derbyn triniaeth a mwy na 2000 yn y grŵp rheoli. Roeddent wedi cael bod effeithiau arwyddocaol bach ond cadarnhaol ar gyfer y grŵp a gafodd driniaeth ar gyfraddau ailgollfarnu a chyfraddau goroesi. Awgrymodd yr awduron, er eu bod wedi cael bod hyn yn digwydd, y bydd y rhan fwyaf o gyflawnwyr trais yn parhau i aildroseddu a

bod angen mwy o ymdrech yn y dull o ddarparu ymyriadau er mwyn mwyhau'r effeithiau cadarnhaol.

3.3 Defnyddiodd Blatch et al (2016) grŵp rheoli a oedd yn cyfateb o ran tueddfryd i ailystyried cyfraddau aildroseddu ar gyfer 953 o droseddwyr trais domestig a oedd wedi derbyn rhaglen Therapi Gwybyddol Ymddygiadol o 20 sesiwn. Roedd y dyluniad yn gadarn ac roedd y canfyddiadau'n dangos cyfraddau aildroseddu a oedd 15% yn is ar gyfer grŵp y rhaglen. Roedd y cyfraddau goroesi at yr ail gollfarn gyffredinol gyntaf yn well ar gyfer grŵp y rhaglen o 15%, a 27% at yr ail gollfarn dreisgar gyntaf. Roedd astudiaethau llai a nodwyd yn yr asesiad hwn hefyd yn ategu'r canlyniadau hyn (e.e. Cunha a Goncalves, 2015). Fodd bynnag, roedd rhai astudiaethau nad oeddent yn dangos canlyniadau arwyddocaol ar gyfer effeithiolrwydd y rhaglenni hyn (e.e. Haggard, Danielsson, Wenander a Langstrom, 2017).

3.4 Roedd Boots, Wareham, Bartula a Canas (2015) wedi ystyried a oedd ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr o'r math hwn yn fwy effeithiol o ran lleihau aildroseddu o'u cymharu â sancsiynau llys eraill a wnaed ar gyfer achosion trais domestig ar lefel is yn y llys teulu. Roedd yr astudiaeth hon yn awgrymu bod dargyfeirio at driniaeth ar y cam hwn yn fwy effeithiol na charcharu. Mae'r canfyddiad hwn wedi'i ategu gan astudiaethau eraill (e.e. Ramirez, Gimenez-Salinas a de Juan Espinosa, 2013). Roedd McClure (2013) yn ffafrio'r dull hwn o weithredu gyda throseddwyr risg isel pan yw'r dargyfeiriad wedi'i arwain gan y cyflawnydd yn hytrach na phan fydd y llys yn pennu triniaeth.

3.5 Mynegwyd pryder gan Hasisi et al (2016) am yr enillion bach a gafwyd o raglenni Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ac roeddent wedi ystyried dull mwy integredig o ymyrryd mewn carchardai ar gyfer cyflawnwyr trais, gan weld bod cynnwys Therapi Gwybyddol Ymddygiadol mewn dull therapiwtig cymunedol yn gwneud y rhaglen yn fwy effeithiol. Nododd Waller (2016) fod yr ymyriadau hyn yn rhoi sylw i batriarchaeth ond nad ydynt yn rhoi sylw i ffactorau eraill fel hiliaeth systemig gyda grwpiau lleiafrifol a bod dull seiliedig ar gryfderau yn gallu gwella'r dull o ddarparu. Yn ogystal â hyn, awgrymodd Sygel, Kristiansson, Furberg a Fors (2014) y byddai

ychwanegu hyfforddiant ar sgiliau adnabod emosiynol yn gwneud y rhaglen yn fwy effeithiol.

3.6 Yn yr un modd â'r papurau adolygu a drafodwyd yn yr adran ragarweiniol, roedd yr asesiad hwn yn dangos bod tystiolaeth gymysg am effeithiolrwydd dulliau Therapi Gwybyddol Ymddygiadol mewn ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr trais. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu'r amrywiadau yn y dulliau o gyflwyno Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ar gyfer y cohort hwn (gan fod rhai'n integreiddio Therapi Gwybyddol Ymddygiadol â dulliau eraill, a bod rhai rhaglenni Therapi Gwybyddol Ymddygiadol wedi'u seilio ar egwyddorion model Duluth, ac eraill heb eu seilio arnynt), yn ogystal â'r angen i ystyried effeithiolrwydd yr ymyriad ar gyfer cyflawnwyr trais yn y cyd-destun ehangach lle mae'n cael ei ddarparu.

Rhaglenni Cyfiawnder Adferol

3.7 Roedd Mills, Barocas ac Ariel (2013) wedi cymharu effeithiolrwydd ymyriad seiliedig ar grŵp ar gyfer cyflawnwyr trais domestig a bennwyd gan lys â rhaglen seiliedig ar gyfiawnder adferol. Drwy ddull hap-dreialu, gan ddefnyddio ailarestio yn fesur ar gyfer canlyniadau, cawsant nad oedd gwahaniaethau o arwyddocâd ystadegol rhwng y ddau ddull triniaeth. Awgrymodd yr awduron y dylai'r canfyddiadau hyn gymell llysoedd ac ymarferwyr i fyfyrio ar y duedd i osgoi defnyddio cyfiawnder adferol mewn achosion cam-drin domestig.

3.8 Gan nad oedd ond un astudiaeth wedi'i nodi a oedd yn cynnig tystiolaeth o blaid effeithiolrwydd dulliau adferol wrth weithio gyda chyflawnwyr trais domestig, ac nad oedd tystiolaeth benodol o'u plaid yn y papurau adolygu a drafodwyd yn y cyflwyniad, nid yw'r asesiad hwn yn caniatáu dod i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch eu heffeithiolrwydd gyda'r grŵp cleientiaid hwn. Byddai angen cael rhagor o dystiolaeth gadarn i gefnogi'r defnydd ohonynt yng nghyd-destun cam-drin domestig.

Gwella Ysgogiadol

3.9 Cafodd Crane ac Eckhardt (2013) fod un sesiwn o gyf-weld ysgogiadol yn cynyddu'r cydymffurfio â thriniaeth ar gyfer y grŵp hwn ac mae ymchwil arall wedi awgrymu bod parodrwydd i newid yn bwysig (Zalmanowitz, Babins-Wagner, Rodger, Corbett a Leschied, 2013). Mae'r canfyddiadau'n gefnogol i'r argymhelliad y dylai rhaglenni ymddygiad troseddol ar gyfer cyflawnwyr trais partner personol gynnwys elfen ysgogiadol i wella'r cydymffurfio â thriniaeth, ond nid ydynt yn arwain at lai o aildroseddu ar eu pen eu hunain.

3.10 Darparodd Strang et al. (2017) ragor o dystiolaeth ar gyfer cyf-weld ysgogiadol. Roeddent wedi cynnig dewis i gyflawnwyr trais domestig a oedd yn wynebu collfarn am y tro cyntaf o fynychu dau weithdy grŵp pum awr ar benwythnosau olynol a oedd yn defnyddio dull cyf-weld ysgogiadol. Mae eu canfyddiadau'n awgrymu bod y gyfradd arestio ar gyfer troseddau llai difrifol yn is ar gyfer cyflawnwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y grŵp gweithdy dros y cyfnod o un flwyddyn ar ei ôl. Mae hyn yn awgrymu y gall y dull hwn fod yn effeithiol o ran lleihau niwed. Ategir hyn gan y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a drafodwyd yn adran ragarweiniol yr asesiad hwn, a oedd yn rhoi pwys ar y gwerth o gymryd rhan mewn gwaith gwella ysgogiadol yn ystod ymyriadau ymddygiad troseddol i gyflawnwyr cam-drin domestig.

Meddwl-Corff

3.11 Mae triniaeth meddwl-corff yn ddull sy'n canolbwyntio ar y ffordd y mae ffactorau emosiynol, seicolegol, cymdeithasol, ysbrydol ac ymddygiadol yn effeithio ar iechyd meddyliol a chorfforol. Mae wedi'i seilio ar bwysigrwydd hunan-ymwybyddiaeth a hunan-ofal. Felly mae ymyriadau meddwl-corff yn ceisio meithrin priodweddau o'r fath, er enghraifft, drwy ymwybyddiaeth ofalgar ac ymarfer somatig. Ar sail llenyddiaeth sy'n dangos y cysylltiad rhwng camreoleiddio emosiynol a thrais domestig, mae wedi'i ystyried yn ddull triniaeth dichonol ar gyfer y cyflawnwyr sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn. Cafodd Tollefson a Phillips (2015) fod ymyriadau o'r fath wedi'u haddasu ar gyfer y boblogaeth hon yn gysylltiedig â chyfraddau is ar gyfer gadael cyn gorffen (o'i gymharu â dulliau triniaeth eraill), llai o aildroseddu, a gwelliannau ar draws mesurau o ymwybyddiaeth ofalgar ac iechyd corfforol a meddyliol. Roedd yr awduron yn cydnabod bod angen rhagor o ymchwil i ganfod

unrhyw effaith o driniaeth meddwl-corff ar ymddygiad dynion a oedd wedi cyflawni trais domestig cyn hynny yn eu perthnasoedd. Mae'r ffaith nad oes canfyddiadau penodol yn adran ragarweiniol yr asesiad hwn sy'n dangos effeithiolrwydd dulliau o'r fath gyda'r grŵp cleientiaid hwn hefyd yn ategu'r farn hon.

Alcohol

3.12 Roedd nifer o astudiaethau sydd wedi'u nodi yn yr adolygiad hwn yn ymwneud â'r berthynas rhwng camddefnyddio alcohol (a thriniaeth ar ei gyfer) a cham-drin domestig, ac yn nodi eu bod yn aml yn cyd-ddigwydd ac yn rhannu nifer o ffactorau risg. Er enghraifft, edrychodd Brasfield et al. (2016) ar y berthynas rhwng defnyddio alcohol, disgwyliadau o ran alcohol (h.y. credoau am effeithiau alcohol) a cham-drin partneriaid ymysg dynion a orchmynnwyd i ddilyn rhaglen ymyrryd ar gyfer curwyr. Roedd eu canfyddiadau'n gymhleth, ond yn dangos bod disgwyliadau o ran alcohol (yn ogystal â'r defnydd o alcohol ei hun) yn gallu chwarae rhan mewn cam-drin partneriaid. Mae hyn yn awgrymu, yn achos rhai cyflawnwyr cam-drin domestig, y dylai triniaeth am alcohol (sy'n rhoi sylw i ddisgwyliadau o ran alcohol) fod yn elfen atodol mewn unrhyw ymyriad sy'n targedu ymddygiad troseddol.

3.13 Mewn astudiaeth bellach sy'n ystyried y berthynas rhwng defnyddio alcohol a thrais, nododd Stuart et al. (2016) y rhan sydd i risg genetig gronnol mewn rhagfynegi trais partner personol a chanlyniadau i driniaeth am ddefnyddio alcohol. Drwy ddull Hap-dreial wedi'i Reoli, cawsant fod dynion sy'n cael sgorau uwch am farcwyr risg genetig yn cael canlyniadau gwell am drais partner personol a defnyddio alcohol. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg gwybodaeth genetig am gyflawnwyr trais partner personol, nid yw'n debygol y bydd y cynnig i roi blaenoriaeth i achosion ar gyfer triniaeth ar sail data o'r fath yn cael ei wireddu hyd y gellir rhag-weld. Er hynny, mae tystiolaeth yn y llenyddiaeth o blaid cymhwyso dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â pholisi ar alcohol at ganlyniadau o ran trais rhywiol hefyd (Lippy a DeGue, 2016). Mae hyn yn gyson â'r awgrym gan Stover et al. (sydd wedi'i drafod yn y cyflwyniad) y dylid rhoi sylw i anghenion o ran camddefnyddio sylweddau wrth dargedu'r ffactorau cyfnewidiol sy'n sail i ymddygiad troseddol ymysg cyflawnwyr cam-drin domestig (2009).

Ymyriadau Teuluol

3.14 Prin yw'r ymchwil ddibynadwy sy'n ymwneud â lleihau trais teuluol drwy ymyriadau teuluol. Er hynny, mae'r astudiaethau sydd ar gael yn cynnig potensial i ddatblygu dulliau ataliol. Cafodd Feinberg et al. (2016) fod pontio i raglen rhianta yn cael effaith sylweddol ar adroddiadau gan rieni am drais teuluol wrth ei chynnal gyda chyplau risg uchel o'u cymharu â grŵp rheoli â lefel debyg o risg. Mae'r dulliau 'byd go iawn' hyn o weithio gyda theuluoedd sy'n wynebu risg yn dangos addewid. Cynhaliwyd hap-dreial wedi'i reoli a oedd yn cynnwys mamau a oedd wedi profi cam-drin domestig wrth ddarparu rhaglen atal cam-drin 'ar ddêt' i'w merched a oedd yn eu harddegau. Roedd y canlyniadau'n dangos nid yn unig fod llai o erledigaeth ond bod llai o gam-drin seicolegol a cham-drin seiber wedi'i gyflawni gan y merched hynny yn eu harddegau a oedd wedi bod yn dyst i lefelau uchel o gam-drin domestig (Foshee et al. 2016).

3.15 Roedd astudiaeth ddiddorol yn Ecuador wedi edrych ar effaith trosglwyddo arian parod a bwyd i deuluoedd (Buller, Hidrobo, Peterman a Heise, 2016). Cawsant fod hyn wedi arwain at lai o drais partner personol gan ei fod yn lleihau gwrthdaro a straen ymysg cyplau, yn gwella llesiant yr aelwyd ac yn cynyddu'r penderfynu, hunan-hyder a rhyddid i symud ymysg partneriaid benywaidd. Tra bo hyn yn awgrymu bod ymyriadau economaidd yn cael effaith uniongyrchol ar leihau trais mewn perthnasoedd, roedd yr ymyriad wedi'i reoli'n dda iawn ac roedd y trosglwyddiadau wedi'u gwneud i'r partner benywaidd, ac roedd hyn yn cael effeithiau penodol iawn ar ddynameg y berthynas. Mae canfyddiadau o'r fath yn gyson ag ymchwil sydd wedi'i thrafod yn y cyflwyniad i'r papur hwn (e.e. Dutton, 2012), a oedd yn cynnig mai ymyriadau seiliedig ar y teulu nad ydynt yn ceisio dilyn llwybr dwyrannol yn unig (h.y. dioddefwr neu gyflawnydd) wrth bennu a darparu triniaeth sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol.

Ymyriadau yn y gymuned a chan rai presennol mewn sefyllfaoedd

3.16 Mae'r rhan fwyaf o raglenni ymyrryd ar gyfer rhai sy'n bresennol mewn sefyllfaoedd yn hyfforddi cyfranogwyr i herio cyflawnwyr cam-drin, cynorthwyo dioddefwyr a lliniaru sefyllfaoedd a all fod yn niweidiol. Cynhaliwyd nifer o astudiaethau o

ymyriadau yn y gymuned/gan rai presennol mewn ysgolion a cholegau/prifysgolion, a hynny o bosibl yn adlewyrchu'r risg uchel a geir mewn amgylcheddau o'r fath yng nghyswllt trais rhywiol a thrais mewn perthnasoedd. Roedd Moynihan et al. (2015) wedi edrych yn benodol ar yr effeithiau hirdymor ar fyfyrwyr o gymryd rhan mewn rhaglen o'r fath ac wedi cael bod newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad wedi parhau un flwyddyn ar ôl cymryd rhan (ac i fwy o raddau na grŵp rheoli a oedd wedi derbyn ymgyrch marchnata cymdeithasol yn unig). Er hynny, roedd yr awduron yn cydnabod bod ffactorau cymhleth yn gysylltiedig ag ymyriadau gan rai presennol (a'u gwerthuso), a bod ffactorau fel rhywedd a'r berthynas â'r person a dargedwyd (h.y. dieithryn o'i gymharu â ffrind) yn dylanwadu ar effeithiolrwydd y rhaglen.

3.17 Wrth asesu rhaglen atal trais 'ar ddêt' yn UDA, roedd Jaime et al. (2016) wedi rhoi sylw'n benodol i'r effaith o ddarparu'r ymyriad gan eiriolwr yn hytrach na hyfforddwr ar agweddau ac ymddygiad y cyfranogwyr (athletwyr). Er na chafwyd bod gwahaniaethau sylweddol, roedd yr ymchwilwyr wedi awgrymu bod y canlyniad yn gadarnhaol gan ei fod yn hwyluso'r gallu i dyfu rhaglenni o'r fath yn unol â'r anghenion ac felly ymestyn eu cyrhaeddiad. Roedd Sosa-Rubi et al. (2017) hefyd wedi astudio effeithiolrwydd rhaglen 16 wythnos o hyd ar gyfer lleihau trais 'ar ddêt'. Roedd eu hymchwil ym Mecsico yn dangos bod gostyngiad sylweddol yn y trais seicolegol a gyflawnwyd ac a brofwyd gan wrywod a oedd wedi derbyn y rhaglen gyfan, a oedd yn ymdrin â rolau rhywedd, trais 'ar ddêt', hawliau rhywiol, strategaethau ymdopi, etc. Gwelwyd bod credoau ac agweddau sy'n gysylltiedig â rhywiaeth a thrais 'ar ddêt' wedi lleihau ymysg cyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd.

3.18 Yn eu hadolygiad systematig o'r llenyddiaeth ar effeithiolrwydd rhaglenni ymyrryd gan rai presennol mewn sefyllfaoedd, roedd Storer, Casey a Herrenkohl (2015) wedi cael bod tystiolaeth gyffredinol o'r effaith o hyfforddiant o'r fath ar barodrwydd cyfranogwyr i ymyrryd mewn sefyllfa lle roedd posibilrwydd o gam-drin 'ar ddêt', ac ar eu hyder i wneud hynny. Er hynny, roedd tystiolaeth lai cyson am ei ddylanwad ar yr ymddygiad ymyrryd ei hun. Awgrymodd yr awduron fod angen rhagor o ymchwil i ddangos y cydrannau penodol mewn hyfforddiant i rai presennol sy'n arwain at ymyriad ymddygiadol yn ystod sefyllfa o gam-drin y maent yn dyst iddi.

3.19 Edrychodd Elias-Lambert a Black (2016) ar yr effeithiau o ymyriad gan rai presennol ar wrywod mewn coleg a oedd wedi'u categoreiddio ganddynt yn rhai risg isel neu risg uchel am gyflawni mathau o ymddygiad rhywiol ormesol. Er iddynt gael bod y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau cysylltiedig â thrais rhywiol (fel y parodrwydd i dderbyn credoau di-sail am dreisio), roedd llai o effaith ar y cyfranogwyr hynny a oedd wedi'u pennu'n rhai risg uchel. Er hynny, roedd gostyngiad mewn mathau o ymddygiad rhywiol gymhellol a hunangofnodwyd gan y cyfranogwyr risg uchel. Roedd yr awduron wedi cydnabod bod cyfnod dilynol yr astudiaeth yn gymharol fyr ac wedi datgan nad oeddent yn gwybod a fyddai'r effeithiau hyn yn parhau dros amser. Pwynt diddorol yw nad oedd yr ymchwil wedi canfod unrhyw newidiadau sylweddol mewn unrhyw un o'r mesurau penodol o agweddau ac ymddygiad ymysg rhai a oedd yn bresennol mewn sefyllfaoedd, yn enwedig o ystyried mai hwn oedd prif nod yr ymyriad.

3.20 Wrth geisio cymharu effeithiolrwydd ymyriadau gan rai presennol â dulliau seico-addysg traddodiadol, roedd Reed, Hines, Armstrong a Cameron (2015) wedi cymharu'r mathau o ymddygiad a welwyd wedyn ymysg cyfranogwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y naill neu'r llall o'r ymyriadau hyn. Er nad oeddent wedi canfod unrhyw wahaniaethau rhwng y grwpiau hyn mewn mesurau perthnasol o agweddau a wnaed wedyn (gan fod y ddau grŵp yn dangos gwelliannau cysylltiedig), roeddent wedi cael bod ychydig mwy o effeithiolrwydd ymysg rhai presennol a oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen ar gyfer ymyriadau gan rai presennol mewn sefyllfaoedd.

3.21 Roedd Salazar, Vivolo-Kantor, Hardin a Berkowitz (2014) wedi edrych ar effeithiolrwydd rhaglen ar y we ar ymyrryd gan rai presennol ar gyfer myfyrwyr coleg gwrywaidd, gan dynnu sylw at y ffaith bod hyfforddiant o'r fath yn gallu cyrraedd yn bellach na rhaglenni wyneb yn wyneb. Drwy ddefnyddio Hap-dreial wedi'i Reoli, roeddent wedi cael bod cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr hyfforddiant yn llai tebygol o lawer o gyflawni trais rhywiol eu hunain yn ogystal â bod yn fwy tebygol o ymyrryd yn bro-gymdeithasol fel rhai presennol mewn sefyllfaoedd na rhai yn y grŵp rheoli. Ar ôl defnyddio fideo (a weinyddwyd drwy gwnselwyr) fel modd i gymell plant ysgol i ymddwyn yn gadarnhaol fel rhai presennol mewn sefyllfaoedd, roedd Sargent, Jouriles, Rosenfield a McDonald (2017) wedi cael bod yr effaith arfaethedig yn parhau mewn prawf dilynol ar ôl tri mis drwy gymharu â grŵp rheoli.

Yn yr un modd â dull seiliedig ar y we Salazar et al. (2015), roeddent hefyd wedi nodi'r arbedion dichonol ar gostau a chyrhaeddiad pellach ymyriadau o'r fath.

3.22 Yn eu hastudiaeth o effaith rhaglen 15 wythnos (a oedd yn cynnwys elfennau fel empathi, rheoli dicter, etc.) ar yr ymddygiad dilynol ymysg plant ysgol ganol, roedd Espelage, Low, Polanin a Brown (2013) wedi cael, er bod y grŵp a hyfforddwyd yn llai tebygol o lawer o gyflawni ymosodedd corfforol, nad oedd gwahaniaeth rhwng y cyfranogwyr hyn a'r grŵp rheoli mewn perthynas â lefelau dilynol o fathau eraill o ymosodedd, yn cynnwys trais rhywiol a bwlio geiriol. Cafodd Miller et al. (2015) fod rhaglen seiliedig ar addysg a chwnsela (a ddarparwyd drwy ganolfannau iechyd ysgolion) yn cael effeithiau cadarnhaol (ond nid ar yr holl newidion) ar gam-drin mewn perthnasoedd ymysg y glasoed a gafwyd wedyn. Ymchwiliodd Devries et al. (2017) i weld a oedd rhaglen gymorth a ddarparwyd dros gyfnod o 18 mis mewn ysgolion cynradd yn Uganda wedi lleihau trais emosiynol, trais corfforol a thrais rhywiol, tuag at blant ysgol gan athrawon a rhwng cyfoedion. Roedd y rhaglen gymorth wedi cael yr effaith arfaethedig, er ei bod yn ymddangos yn fwy ymysg bechgyn nag ymysg merched.

Cymunedau penodol

3.23 Roedd Hossain et al. (2014) wedi edrych yn benodol ar yr effeithiau o weithio gyda chyflawnwyr trais partner personol mewn amgylcheddau a oedd yn dangos effaith gwrthdaro (h.y. rhyfel), gan nodi bod lefelau troseddu o'r fath yn uwch yn y lleoliadau hynny. Gan wneud defnydd o hunangofnodi yn ogystal â chofnodi gan bartneriaid, cafodd yr ymchwilwyr fod yr ymyriad yn cael effeithiau cadarnhaol ar lefelau o drais partner personol corfforol a/neu rywiol a gafwyd wedyn. Roedd hyn yn awgrymu y dylai ymyriadau o'r fath fod yn rhan o ymateb y gymuned ar adegau o wrthdaro.

3.24 Gan ganolbwyntio ar enghraifft yn Uganda, roedd Abramsky et al (2016) wedi defnyddio Hap-dreial wedi'i Reoli i edrych ar effeithiau ymyriad i atal/lleihau trais partner personol. Drwy ymchwilio i'r llwybrau a ffactorau, gwelwyd pa mor bwysig oedd ymdrin â newidion yn y gymuned, mewn perthnasoedd ac ymysg unigolion. Roedd yr astudiaeth wedi tynnu sylw at y pwysigrwydd o weithio gyda dynion a

menywod i ymdrin â thrais partner personol, yn ogystal â'r angen i roi sylw i normau diwylliannol hollbresennol sy'n cefnogi trais, nid yn unig y rheini a brofir ar lefel yr unigolyn.

3.25 Edrychodd Baker, Naai, Mitchell a Trecker (2014) ar effeithiolrwydd model 'hyfforddi'r hyfforddwyr' ar gyfer darparu cwricwlwm mewn ysgolion ar atal trais rhywiol mewn ffordd ddiwylliannol ymatebol yn Hawaii. Roedd canfyddiadau'n dangos bod myfyrwyr a dderbyniodd yr ymyriad wedi cynyddu eu gwybodaeth am drais rhywiol yn sylweddol, wedi lleihau eu tuedd i feio dioddefwyr ac wedi dod yn fwy effeithiol fel rhai presennol mewn sefyllfaoedd o'u cymharu â'r rheini mewn grŵp rheoli mewn ysgol.

Rheolaeth Allanol

3.26 Mae nifer o ymyriadau wedi ceisio lleihau'r risg o gam-drin domestig drwy osod sancsiynau a/neu strategaethau rheoli allanol ar y cyflawnwyr honedig/profedig. Edrychodd Sloan, Platt, Chepke a Blevins (2013) ar effeithiau ataliol cosbau llys am droseddau trais domestig. Er eu bod wedi rhagdybio bod gwybodaeth am arestio a chosbi dilynol yn cael ei hystyried yn y prosesau meddwl sy'n digwydd cyn troseddu o'r fath, nid oedd yr awduron wedi cael tystiolaeth i ddangos hyn yn eu hastudiaeth. Daethant i'r casgliad nad yw sancsiynau ar eu pen eu hunain yn ddigon i atal aildroseddu ar ffurf trais domestig. Yn eu hymchwil ddiweddarach, roedd Broidy, Albright a Denman (2016) wedi cymharu gwahanol fathau o ymyriadau trais domestig, sef arestio, gorchmynion amddiffyn sifil a chyfuniad o'r ddau. Cawsant nad oedd gwahaniaethau yn yr aildroseddu a gafwyd wedyn. Un o'r ffactorau y cafwyd ei fod yn gysylltiedig â mwy o risg o aildroseddu oedd newidion sefydlog cysylltiedig â chyflawnwyr cam-drin (oed, hanes troseddu, etc.).

3.27 Edrychodd Grommon, Rydberg a Carter (2017) ar effaith tracio ar System Leoli Fyd-eang (GPS) ar ymddygiad rhai sydd wedi'u cyhuddo o drais partner personol sy'n aros am dreial. Cawsant fod tracio ar GPS yr un mor effeithiol â goruchwyliaeth draddodiadol o ran lleihau cyfraddau ailarestio neu fethiant i ymddangos yn y llys. Fodd bynnag, roedd y defnydd o GPS yn gysylltiedig â mwy o debygolrwydd o gadw apwyntiadau goruchwylio, ac roedd yr ymchwilwyr yn awgrymu bod hyn yn

dangos y manteision dichonol o ddefnyddio GPS mewn rheolaeth gan y gwasanaeth prawf.

3.28 Roedd Georgiou (2014) wedi edrych ar effaith gwahanol lefelau o oruchwyliaeth ar aildroseddu ymysg troseddwyr ar ôl eu rhyddhau gan gwmpasu gwahanol fathau o droseddau. Ar ôl astudio rhaglen yn Washington a oedd yn darparu lefelau goruchwylio ar sail lefelau risg, nid oedd yr awdur wedi canfod bod lefel uwch o oruchwyliaeth yn lleihau aildroseddu. Tynnodd sylw at oblygiadau hynny i bolisi o lawer math yn UDA sy'n cymryd y bydd lefel uwch o oruchwyliaeth yn effeithiol o ran rheoli troseddwyr risg uchel yn y gymuned.

3.29 Mae hefyd yn ymddangos bod llysoedd trais domestig penodol yn arwain at ganlyniadau cymysg. Ar sail sampl yn Efrog Newydd, roedd Cissner, Labriola a Rempel (2015) wedi edrych ar effaith llysoedd trais domestig troseddol ar aildroseddu a chanlyniadau eraill mewn achosion. Cawsant fod llysoedd trais domestig yn cael effaith gadarnhaol fach ar gyfer troseddwyr a gollfarnwyd ond nid ar gyfer y rheini a oedd heb eu collfarnu. Nid oedd lefel y carcharu gan lysoedd trais domestig yn wahanol iawn i lefel y carcharu gan lysoedd traddodiadol. Er hynny, cafwyd bod llysoedd trais domestig yn fwy effeithlon gan gymryd llai o lawer o amser rhwng arestio a therfynu'r achos. Roedd yr ymchwilwyr yn awgrymu bod arferion diogelwch dioddefwyr ac adsefydlu cyflawnwyr cam-drin yn fwy effeithiol na phrosesau yn y llys o ran lleihau aildroseddu.

3.30 Yn eu gwerthusiad o gynllun peilot Gorchmynion Amddiffyn Trais Domestig yn y DU, roedd Kelly et al. (2013) wedi edrych ar eu heffeithiolrwydd o ran darparu amddiffyniad ar unwaith i ddioddefwyr yn dilyn digwyddiad trais domestig mewn achosion lle nad oedd cyfyngiadau eraill ar gael. Roedd Gorchmynion Amddiffyn Trais Domestig wedi'u bwriadu i roi cyfnod o 14-28 o ddiwrnodau i ddioddefwyr pan fydd mynediad gan y cyflawnydd cam-drin atyn nhw/i'w cartref yn cael ei gyfyngu er mwyn iddynt allu penderfynu ar gwrs gweithredu. Mae'n werth nodi nad oedd yr un Gorchymyn Amddiffyn Trais Domestig wedi arwain at gymryd rhan gan gyflawnydd cam-drin mewn rhaglen newid ymddygiad. Er hynny, roedd Gorchmynion Amddiffyn Trais Domestig yn gysylltiedig â lefelau is o gam-drin domestig, er bod yr awduron yn cydnabod nad oes modd priodoli hyn i Orchmynion Amddiffyn Trais Domestig.

Roeddent yn gysylltiedig â gostyngiad neilltuol mewn trais domestig yn yr achosion hynny sy'n cynnwys rhai sy'n cael eu gweld yn droseddwyr 'cyson' neu aildroseddwyr.

3.31 Roedd dadansoddiad economaidd yn dangos bod Gorchmynion Amddiffyn Trais Domestig yn arwain at arbed costau net, a rhagwelir y bydd yr arbedion yn cynyddu wrth i Orchmynion Amddiffyn Trais Domestig gael eu mabwysiadu mewn ymarfer. Mewn astudiaeth o orchmynion dim cyswllt a'u heffaith ar ymddygiad cyflawnwyr cam-drin a diogelwch dioddefwyr mewn achosion trais domestig, roedd Brame, Kaukinen, Gover a Lattimore (2015) wedi cael, er bod gorchmynion 'dim cyswllt' yn hybu ymwybyddiaeth y dioddefwr o'r materion dan sylw ac yn cynyddu ei ymwneud â gwasanaethau, nad oeddent yn lleihau'r cyflawni ar gam-drin nac yn cynyddu diogelwch.

3.32 Edrychodd Pinchevsky (2017) ar y berthynas rhwng setlo achosion yn y llys ac aildroseddu mewn dau lys trais domestig arbenigol yn UDA. Ymysg canfyddiadau eraill, roedd yr astudiaeth yn dangos bod dibyniaeth helaeth ar raglenni i 'gurwyr', ond nid oedd yn dangos perthynas glir rhwng setlo achos ac aildroseddu. Awgrymodd yr awduron fod angen cynnal astudiaethau ansoddol o brosesau llys er mwyn deall y data meintiol cysylltiedig gan fod modd dehongli'r canfyddiadau mewn sawl ffordd.

3.33 Ar y cyfan, er bod y canlyniadau'n gymysg, mae'n ymddangos bod y llenyddiaeth hon yn gyson â'r llenyddiaeth gyffredinol sy'n awgrymu mai ychydig o effaith y mae sancsiynau troseddol yn ei chael ar aildroseddu a dyma oedd y canfyddiad yng nghyswllt trais domestig gan Sloan, Platt, Chepke a Blevins (2013) a ddaeth i'r casgliad nad yw cosbau'n atal arestio yn y dyfodol.

4. Casgliadau

4.1 Er gwaethaf ymdrechion sylweddol gan ymchwilwyr ac ymarferwyr, mae ansicrwydd o hyd ynghylch 'beth sy'n gweithio' gyda chyflawnwyr cam-drin domestig wrth geisio atal troseddu o'r fath neu leihau aildroseddu. I raddau helaeth, mae'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu natur amrywiol y dulliau o ddylunio a darparu gwasanaethau i gyflawnwyr cam-drin yn ogystal â'r dull o'u gwerthuso, o ran ansawdd, methodoleg a gwrthrychedd. Er hynny, mae hefyd yn ategu'r farn na ellir gwerthuso ymyriadau ar wahân i'w cyd-destun cymunedol ehangach (Velonis, 2016).

4.2 Er bod y papur hwn yn ymdrin yn benodol â dulliau o weithio gyda chyflawnwyr cam-drin, mae'n bosibl bod yr union ganfyddiad hwn hefyd yn awgrymu nad oes un dull penodol y gellir ei fabwysiadu a'i bod yn debygol bod problem sydd wedi datblygu a pharhau o ganlyniad i nifer o elfennau yn galw am amrywiaeth o ymyriadau i ddiwallu gwahanol anghenion ar lefel yr unigolyn, y teulu a'r gymuned. Felly mae hyn yn ategu'r dull o weithredu gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio cydgysylltu gwasanaethau a chynnwys ymateb i gam-drin domestig (a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fwy cyffredinol) ar draws asiantaethau a chyrff cyhoeddus.

4.3 I grynhoi, mae'r dystiolaeth o blaid defnyddio dulliau gwybyddol ymddygiadol i drin y cohort hwn yn parhau'n gymysg, ac mae tuedd i gyfuno ymyriadau â modelau a dulliau eraill, sy'n arwain at amrywiadau yn y driniaeth a ddarperir. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr ymyriadau hyn yn fwy effeithiol na'r ddalfa, yn enwedig ar gyfer troseddwyr risg isel sy'n dymuno derbyn triniaeth. Mae'r ffordd o ddarparu'r rhaglenni hyn yn debygol o fod yn bwysig ac mae rhywfaint o dystiolaeth yn yr astudiaethau a adolygwyd o blaid cynnwys gwella ysgogiadol, yn enwedig fel ymyriad cynnar. Mae ychydig o dystiolaeth sy'n dangos bod dulliau cyfiawnder adferol a meddwl-corff yn effeithiol mewn triniaeth o'r fath, ond bydd angen gwerthuso'r rhain yn drwyadl er mwyn dod i unrhyw gasgliadau ynghylch eu heffeithiolrwydd.

4.4 Mae'r asesiad hwn yn ategu ymhellach y syniad y dylai camddefnydd o sylweddau gael ei drin (lle y bo'n berthnasol) yn rhan o set o ymyriadau ehangach ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig. Mae tystiolaeth hefyd sy'n dangos y gall ymyriadau

sy'n canolbwyntio ar y teulu fod yn effeithiol, yn enwedig fel dull ataliol/ymyrryd cynnar i ymdrin â cham-drin domestig mewn teuluoedd risg uchel. Mae'r dystiolaeth o blaid ymyriadau gan rai sy'n bresennol mewn sefyllfaoedd yn gymysg, fel y mae honno ar gyfer strategaethau rheoli allanol: mae hyn yn awgrymu na fydd defnyddio dulliau o'r fath ar wahân yn atal neu'n lleihau'r risg o gyflawni cam-drin domestig. Mae'r canfyddiad bod angen i ymyriadau fod yn ymatebol i'r cyd-destun diwylliannol lle maent yn cael eu darparu yn ategu'r alwad am weithredu ar sail system gyfan i fynd i'r afael â cham-drin domestig, fel na fydd gwasanaethau i gyflawnwyr trais domestig yn gweithredu ar wahân ac fel y byddant yn adlewyrchu'r gymuned ehangach lle mae unigolion a'u teuluoedd yn byw .

4.5 Mae'n destun pryder na ddaethpwyd o hyd i astudiaethau a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer yr Asesiad Cyflym o Dystiolaeth yn y ddogfen hon, a fyddai'n ein galluogi i roi prawf ar effeithiolrwydd dulliau sy'n seiliedig ar drawma neu ddulliau sy'n ymateb i Anhwylderau Personoliaeth yn y driniaeth mewn rhaglenni i gyflawnwyr trais domestig. Mae hyn yn anffodus o ystyried y pwyslais presennol ar ddulliau o atal ac ymyrryd mewn ymddygiad troseddol ar sail Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a thrawma. Byddai'r maes hwn yn elwa o waith ymchwil, datblygu a gwerthuso. Mae'r gwerth dichonol sydd mewn ymyrryd yn gynharach o safbwynt y dioddefwr a'r cyflawnydd hefyd yn galw am ymchwil ac yn awgrymu bod angen ystyried rhaglenni mewn ysgolion sy'n meithrin cryfderau mewn perthnasoedd a ffactorau amddiffynnol, gyda'r amcan o atal cam-drin domestig yn ddiweddarach.

5. Argymhellion

5.1 Mae goblygiadau pwysig yn y canfyddiadau o'r ACD i bolisi, yn enwedig y polisïau hynny sy'n cyfrannu at gyflawni Amcan 3 yn Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru: 'Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr'. Wrth gynnig/rhagnodi dulliau o ymdrin â risg ymysg cyflawnwyr cam-drin, dylai llunwyr polisi gydnabod y cyfyngiadau mewn ymchwil gysylltiedig o ran diffygion mewn methodoleg a/neu'r duedd sylfaenol mewn llawer o'r ymchwil gysylltiedig. Dylid seilio penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau a dewis ymyriadau nid yn unig ar risgiau ac anghenion y boblogaeth berthnasol o gyflawnwyr cam-drin, ond hefyd ar y rhaglenni hynny sy'n fwyaf tebygol o fod yn ddiogel ac effeithiol.

5.2 Mae adolygu'r hyn sydd ar gael yng Nghymru a datblygu strategaethau gwerthuso sy'n ystyried y cyd-destun lle mae ymyriadau'n digwydd, yn ogystal ag adnabod canlyniadau ychwanegol, yn debygol o fod yn allweddol wrth sicrhau bod yr opsiynau gorau ar gyfer ymyrryd yn cael eu mabwysiadu a'u haddasu wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r golwg. Wedi dweud hynny, mae hefyd yn bwysig sicrhau bod unrhyw ymyriadau newydd yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y sylfaen dystiolaeth ehangach am 'beth sy'n gweithio', eu bod yn cael eu llunio ar gyfer yr unigolyn, yn gweithredu ar sail cryfderau ac yn cael eu hystyried o safbwynt y dull o'u darparu (Bates, et al., 2017). Oherwydd prinder y dystiolaeth benodol am yr hyn sy'n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig, dylai ymyriadau o'r fath gael eu cyflwyno ar sail arbrofol ar raddfa fach gan werthuso eu heffeithiolrwydd yn drwyadl cyn eu cyflwyno'n fwy eang (os dangoswyd eu bod yn gweithio).

5.3 Dylid cydnabod mai darparwyr gwasanaethau i gyflawnwyr cam-drin domestig a achredwyd gan sefydliadau sy'n seilio eu gofynion a'u safonau ar y dystiolaeth ddiweddaraf o ymchwil wrthrychol yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o ddarparu ymyriadau diogel ac effeithiol. Ni ddylai fod yn ofynnol i wasanaethau fabwysiadu un model newid penodol (gan nad yw'r dystiolaeth bresennol yn dangos bod un model yn fwy effeithiol na'i gilydd), ond dylent allu dangos y sail ddamcaniaethol i'r dull y maent yn ei ddewis.

5.4 Dylai comisiynwyr fod yn glir ynghylch graddau'r effeithiolrwydd 'anhysbys' a dylent fod yn wyliadwrus o raglenni/sefydliadau sy'n honni eu bod yn darparu ymyriadau effeithiol gyda chyflawnwyr cam-drin domestig. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol â chymwysterau priodol yn craffu ar dystiolaeth ystadegol o effeithiolrwydd i sicrhau ei bod yn cael ei dehongli'n wrthrychol. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch tynnu cymorth yn ôl ar gyfer ymyriadau lle nad oes dim neu nemor ddim tystiolaeth o blaid eu heffeithiolrwydd neu, os na wneir hynny, helpu darparwyr i ddatblygu/gwella ymyriadau ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael.

5.5 Dylid parhau i chwilio am gyfleoedd i ymyrryd gyda chyflawnwyr cam-drin ar hyd 'taith y troseddwr', o'r cyfnod ataliol yn ystod plentyndod, hyd at ymyrryd cynnar gyda throseddwyr 'tro cyntaf', a gweithio gyda'r troseddwyr cyson uchaf eu risg sy'n parhau i droseddu ar ôl eu cosbi ac ymdrechion i'w hadsefydlu. Gall hyn gynnwys dulliau arloesol o weithio sy'n mynd yn bellach na'r dulliau traddodiadol o gosbi ac ymyrryd, yn enwedig o ystyried nad oes un dull penodol o ymyrryd sy'n gweithio'n well na'i gilydd. Er hynny, yn enwedig tra bydd ansicrwydd yn aros ynghylch beth sy'n effeithiol wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau i gyflawnwyr cam-drin, rhaid buddsoddi mewn gwaith gwerthuso trwyadl a pharhaus.

